# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CYNGHORI'R CABINET – ADDYSG A PHOBL IFANC

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD MERCHER, 9 TACHWEDD 2016 AM 4.00 PM

**YN BRESENNOL**: Bu'r CynghoryddD W W Thomas (Cadeirydd) yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C R Doyle | M B Lewis | R V Smith |

**Swyddog(ion)**
Katie Miller – Ysgol Gyfun Pentrehafod
Jennifer Ford – Ysgol Gyfun Pentrehafod
Wendy Williams – Gyrfa Cymru
G Borsden – Gwasanaethau Democrataidd

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J P Curtice a/ac L V Walton

33 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

34 **COFNODION.**

PENDERFYNWYD cytuno bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2016 yn gofnod cywir.

35 **CYFLWYNIAD GAN YSGOL PENTREHAFOD - CYNLLUN PACE.**

Rhoddwyd cyflwyniad i aelodau gan Katie Miller (Cyd-lynydd PACE) a Jennifer Ford (Pennaeth) o Ysgol Gyfun Pentrehafod ar y prosiect PACE sydd ar waith yn yr ysgol. Roedd y cyflwyniad yn dilyn ymweliad safle â'r ysgol gan aelodau ym mis Medi.

Rhoddwyd cyflwyniad Powerpoint manwl a llawn gwybodaeth i'r pwyllgor, gan gynnwys gwybodaeth ar y meysydd canlynol:

- Hanes cefndir, cyd-destun ac egwyddorion sylfaenol datblygiad a chyflwyniad y cynllun.
- Prif uchelgeisiau'r cynllun
- Dulliau adnabod a chyfeirio disgyblion
- Darpariaethau ymyriad cynnar a pharhaus, olrhain a monitro cyflawniad academaidd a materion lles cymdeithasol yn well
- Cyfnod Allweddol 3 - darpariaeth ac adnabod pwyntiau sbardun

- Cyfnod Allweddol 4 - darpariaeth a defnydd cadarnhaol o leoliad y tu allan i safle'r ysgol
- Blynyddoedd 7/8 - darpariaeth anogaeth a chefnogaeth ychwanegol
- Deilliannau cadarnhaol ac effaith y cynllun ar bresenoldeb, cymwysterau, lles cymdeithasol etc.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddogion, ac ymatebwyd yn briodol, yn enwedig yn y meysydd canlynol:

- Pwysigrwydd cwricwlwm amgen
- Datblygiad sgiliau cymdeithasol pobl ifanc a'u lles cyffredinol
- Gwelliant nodedig ym mhresenoldeb y bobl ifanc sy'n rhan o'r cynllun, o oddeutu 60% i dros 90%
- Pwysigrwydd adeiladu dyheadau'r disgyblion
- Cynnydd mewn cymwysterau academaidd
- Holl ddisgyblion CA4 yn derbyn cynnig darpariaeth ôl-16
- Cyfranogaeth pobl ifanc mewn prosiectau cymunedol lleol
- Nid oedd y bobl ifanc a oedd ar y cynllun wedi dod yn NEET
- Cynigion ar gyfer parhad a datblygiad y cynllun fel rhan o raglen adnewyddu ysgolion ehangach
- Gwelliant ysgol "gyfan" oherwydd y cynllun
- Gwelwyd y prosiect yn enghraifft o arfer da ac fe'i efelychwyd ar waith mewn ysgolion eraill
- Amrywiaeth a chyfansoddiad presennol yr ysgol
- Angen i barhau i ddatblygu a chryfhau cysylltiadau ag ysgolion cynradd sy'n bwydo Pentrehafod a rhieni

## 36 GYRFAOEDD CYMRU - TRAFODAETH AR BARODRWYDD POBL IFAINC AR GYFER SWYDDI.

Rhoddwyd cyflwyniad ar lafar i aelodau gan Wendy Williams (Rheolwr Ardal Gyrfa Cymru ar gyfer Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Phowys) ar gefndir y gwaith a wneir gan y gwasanaeth gyda phobl ifanc ar draws yr ardal.

Cyfeiriodd at y newidiadau ariannu a threfnu sylweddol y mae'r gwasanaeth wedi ymgymryd â hwy yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Nododd y byddai'n cylchredeg manylion pellach ar y gwasanaeth diwygiedig yn electroneg yn dilyn y cyfarfod.

Dywedodd fod y gwasanaeth bellach yn canolbwyntio ar bobl ifanc sydd yn y perygl mwyaf o ddod yn ddadrithiedig/NEET.

Mae'r gwasanaeth yn defnyddio data VAP yn ogystal ag Arolwg Gwirio Gyrfa Blwyddyn 10 fel man cychwyn ar gyfer darparu arweiniad a chefnogaeth un i un gwell. Gellir darparu'r cyngor a'r gefnogaeth arbenigol hyn yn bersonol, dros y ffôn neu drwy'r we.

Yn gyffredinol mae cynghorwyr gyrfa bellach yn gofalu am ddwy neu dair ysgol ond maent yn parhau i roi cefnogaeth i ddisgyblion a rhieni drwy nosweithiau gyrfaoedd/rhieni. Cefnogir hyn gan gynghorwyr Gyrfa neu Fyd Gwaith.

Manylodd y cysylltiadau a oedd gan y gwasanaeth â chyflogwyr a chyfeiriodd at yr adborth maent yn ei roi o ran sgiliau cyflogadwyedd pobl ifanc. Amlinellwyd hefyd gyfranogaeth yn y cynllun peilot Dosbarth Busnes y mae pedair ysgol o Abertawe yn rhan ohono. Mae gan y cynllun ymrwymiad tair blynedd.

Cyfeiriodd at y cynllun ymwybyddiaeth o gyfleoedd i brentisiaid a'r dysgu seiliedig ar waith maent yn eu hyrwyddo a chyfranogaeth pobl ifanc sy'n hyrwyddo ac yn esbonio'r cynlluniau i'w cyfoedion fel llwybr gwahanol i'r coleg neu'r brifysgol.

Cyfeiriodd hefyd at y cynllun Cynnydd a ddarperir drwy gyllid Ewropeaidd ar draws yr ardal, gan roi gwybodaeth amdano hefyd.

Amlinellwyd hefyd y rôl mae'r gwasanaeth yn ei chwarae wrth ddarparu cefnogaeth a gwybodaeth i bobl ifanc Haen 3 sydd wedi gadael yr ysgol ac sy'n chwilio am waith neu hyfforddiant. Mae'r gwasanaeth yn eu cefnogi drwy drefnu ymweliadau â chwmnïau lleol, ffug gyfweliadau a chefnogaeth gyda ffurflenni cais etc.

Amlinellwyd hefyd y prosiect newydd a sefydlwyd yn ddiweddar, sef prosiect 'Taclo' gyda'r pedair ardal ranbarthol rygbi.

Trafodwyd y materion a godwyd gan yr aelodau a gofynnwyd cwestiynau amrywiol i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.05 pm

**CADEIRYDD**